# Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

**Teitl y cynnig: Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i strwythur cyfraddau cyfraniadau cyflogeion yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru.**

**Adran: Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol**

**Ysgrifennydd y Cabinet/y Gweinidog sy'n gyfrifol: Jayne Bryant, AS - Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

**Dyddiad Dechrau: 12 Tachwedd 2024**

**Cyfeiriad e-bost cyswllt: [fire@gov.wales](mailto:fire@gov.wales)**

## Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

**Rhan Un – Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i strwythur cyfraddau cyfraniadau cyflogeion yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru.**

Mae'r rhan gyntaf o'n cynigion yn cynnwys diwygiadau arfaethedig i strwythur cyfraddau cyfraniadau cyflogeion yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru. Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnig buddion ymddeol i ddiffoddwyr tân a'u teuluoedd ar delerau sy'n adlewyrchu heriau penodol y proffesiwn diffodd tân.

Mae holl aelodau gweithredol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cyfrannu at y cynllun drwy dalu cyfraniadau cyflogeion, sydd fel arfer yn cael eu tynnu o'r cyflog. Mae cyfraddau cyfraniadau cyflogeion yn ganran o'r cyflog pensiynadwy y mae pob cyflogai'n ei gyfrannu at y cynllun. Gelwir cyfran cyfanswm y cyflog pensiynadwy y disgwylir i'r holl aelodau ei gyfrannu at y cynllun gyda'i gilydd yn arenillion. Mae angen arenillion o 13.2% o gyflog pensiynadwy i sicrhau cynaliadwyedd y cynllun yn y dyfodol.

Yn yr ymarfer prisio diwethaf, nododd Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) fod yr arenillion a gyflawnwyd drwy'r cynllun ychydig yn is na'r hyn sydd ei angen, sef ychydig o dan 13.0%. Felly, mae angen i strwythur y cyfraddau cyfraniadau newid er mwyn sicrhau'r cyfraniad o 13.2% yn yr ymarfer prisio nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y canlynol wrth ddrafftio cynigion i sicrhau'r arenillion gofynnol:

- Dylai cyfraniadau fod yn fforddiadwy, ac ni ddylai'r newidiadau beri i aelodau optio allan o'r cynllun,
- Dylid strwythuro'r cyfraddau o blaid aelodau'r cynllun sydd ar gyflog is,
- Ni ddylai cyfraddau wneud i unigolion deimlo'n amharod i gamu ymlaen yn eu gyrfa,
- Dylai strwythur y gyfradd gyfraniadau fod yn addas ar gyfer y dyfodol,
- Dylai'r system fod yn syml i'w gweinyddu.

Arfaethedig yw'r diwygiadau hyn i Reoliadau Cynllun 2015, gan ddod i rym i aelodau ar 1 Ebrill 2025.

**Rhan dau – Absenoldeb oherwydd profedigaeth i rieni o dan gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân yng Nghymru.**

Mae'r ail ran o'n cynigion yn cynnwys diwygiadau i'r rheoliadau cynllun i ddarparu ar gyfer hawl statudol i absenoldeb a thâl oherwydd profedigaeth i rieni fod yn bensiynadwy. Ym mis Mawrth 2018, roedd Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol y DU wedi ymgynghori ar y darpariaethau i'w cynnwys yn Neddf Profedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018 ("Deddf 2018"), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 13 Medi 2018. Mae'r Ddeddf yn darparu'r hawl statudol ganlynol i absenoldeb a thâl oherwydd profedigaeth i rieni cyflogedig sy'n colli plentyn:

- O leiaf ddwy wythnos i'w helpu i ddygymod â cholli plentyn, os ydynt yn dymuno. Byddai cyflogai'n gymwys dim ots beth yw hyd eu gwasanaeth gyda'u cyflogwr presennol.

- Tâl ar gyfradd safonol statudol neu 90% o'u henillion wythnosol cyfartalog dros gyfnod cyfeirio penodol, pa un bynnag sydd isaf, pan fyddant yn absennol o'r gwaith.

Ar ôl cyflwyno'r Ddeddf, cafodd Rheoliadau pellach eu cyflwyno a oedd yn darparu ar gyfer hawl statudol newydd i absenoldeb a thâl oherwydd profedigaeth i rieni cyflogedig sy'n colli plentyn ar neu ar ôl 6 Ebrill 2020. Mae Deddf 2018 a'r rheoliadau wedi'u gwneud oddi tano yn darparu hawl i absenoldeb â thâl, ond nid ydynt yn darparu'n uniongyrchol bod tâl o'r fath yn bensiynadwy na bod y cyfnod o absenoldeb yn cyfrif fel gwasanaeth pensiynadwy. Mae hynny'n anghyson â chyfnodau eraill o absenoldeb awdurdodedig, fel absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb mabwysiadu. Felly, mae angen diwygio rheoliadau cynllun 2015 i wneud tâl yn ystod absenoldeb oherwydd profedigaeth yn bensiynadwy a bod y cyfnod o absenoldeb yn wasanaeth pensiynadwy.

Mae gwneud darpariaeth ar gyfer absenoldeb a thâl oherwydd profedigaeth i rieni yn cael effaith gwbl gadarnhaol ar aelodau'r cynllun. Nid yw'n cael unrhyw effaith negyddol ar gyflogwyr yn ymarferol chwaith, gan fod tri chyflogwr diffoddwyr tân yng Nghymru eisoes yn darparu absenoldeb â thâl oherwydd profedigaeth i rieni. Felly, mae'n annhebygol y byddai unrhyw adborth negyddol i'r cynnig. Mewn cyfarfod ar 30 Ebrill 2024, roedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y diwygiadau arfaethedig ag aelodau o Fwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o holl undebau cydnabyddedig diffoddwyr tân, o gyrff cynrychioladol ac o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub. Cadarnhaodd yr holl aelodau eu bod yn fodlon ar y cynigion i ddiwygio Rheoliadau Cynllun 2015 i gyflwyno'r hawl statudol hon.

## Casgliad

**Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Rhan 1 – Mae Llywodraeth Cymru wedi trafod yr egwyddorion a'r dewisiadau posibl ar gyfer newid cyfraddau cyfraniadau cyflogeion ag aelodau o Fwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru er mwyn cael eu barn ar y cynnig cyn cynnal ymarfer ymgynghori cyhoeddus llawn. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o holl undebau cydnabyddedig diffoddwyr tân, o gyrff cynrychioladol ac o'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

Rhan 2 – Oherwydd y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn cael effaith gwbl gadarnhaol ar aelodau'r cynllun, roedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ag aelodau o'r Bwrdd yn hytrach na chynnal ymarfer ymgynghori cyhoeddus llawn. Cadarnhaodd yr holl aelodau eu bod yn fodlon ar y diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Cynllun 2015.

**Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol – cadarnhaol a negyddol?**

Rhan 1 – Bydd y cynigion yn newid strwythur presennol cyfraddau cyfraniadau cyflogeion i sicrhau bod yr arenillion targed yn cael eu cyflawni yn yr ymarfer prisio nesaf. Byddai'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio yn cysylltu'r gyfradd cyfraniadau â gradd, a fyddai'n arwain at gynnydd graddol yn lefel y cyfraniadau yn unol â'r radd / band cyflog. Byddai'r cynnig sy'n cael ei ffafrio hefyd yn golygu bod yr aelodau o'r cynllun sy'n cael y cyflog isaf yn cael eu rhoi ym Mand 1, a fyddai'n sicrhau nad ydynt yn gorfod talu cyfradd cyfraniadau anghymesur uwch.

Rhan 2 – Byddai'r diwygiadau arfaethedig yn diwygio Cynllun 2015 i ddarparu ar gyfer hawl statudol i absenoldeb a thâl oherwydd profedigaeth i rieni fod yn bensiynadwy, a sicrhau bod is-ddeddfwriaeth yn nodi'n glir sut dylid gweithredu hynny. Ni fyddai'r cynnig hwn yn cael unrhyw effaith negyddol.

**Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Nod y diwygiadau arfaethedig yw newid strwythur presennol cyfraddau cyfraniadau cyflogeion i sicrhau bod yr arenillion targed yn cael eu cyflawni yn yr ymarfer prisio nesaf. Nod y cynigion yw sicrhau nad yw'r aelodau o'r cynllun pensiwn sy'n cael y cyflog isaf yn gorfod talu cyfradd cyfraniadau anghymesur uwch a sicrhau bod cyfraniadau'n cynyddu yn ôl y disgwyl yn unol â gradd cyflog, yn hytrach na chynyddu ar sail setliadau cyflog blynyddol. Mae'r cynigion wedi cael eu datblygu ar y cyd â chyflogwyr diffoddwyr tan a chynrychiolwyr cyflogeion.

## 8.4 Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig ddatblygu, ac ar ôl iddo ddod i ben?

Er na fydd proses fonitro ffurfiol, bydd effaith y newid i strwythur y gyfradd cyfraniadau yn parhau i gael ei thrafod yng nghyfarfodydd Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru, lle gall cynrychiolwyr cyflogwyr a chyflogeion godi materion ynghylch gweithredu'r newid yn ymarferol, a'r effaith mae hynny wedi'i chael ar yr arenillion. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am roi cyngor, ar gais, i Weinidogion Cymru, rheolwyr cynlluniau a byrddau pensiwn lleol mewn cysylltiad â'r gwaith o weinyddu a rheoli'r amrywiol gynlluniau pensiwn yn effeithiol ac yn effeithlon.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.**

OGL © Hawlfraint y Goron WG50605 ISBN Digidol **978-1-83625-837-7**